## GWASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL CYMRU (WGOS)

# WGOS 4

## *RETINA MEDDYGOL, HYDROCSICLOROCWIN A GLAWCOMA*

DYDDIAD GWEITHREDU: 1 EBRILL 2024

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu strwythur sy'n ei gwneud yn bosibl cyflawni WGOS 4.

Nid yw'n cymryd lle barn na chyfrifoldeb proffesiynol.

**Dolenni defnyddiol:**

| | |
|---|---|
| I weld fersiwn diweddaraf y Llawlyfr Clinigol WGOS hwn | https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ |
| Sut i gofrestru i ddarparu WGOS | https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ |
| Ymholiadau am hyfforddiant, cyrsiau ac asesiadau | heiw.optometry@wales.nhs.uk |
| Ymholiadau am dalu a chofrestru | nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk |
| Cwestiynau yn ymwneud ag WGOS | GOSWClinical.Lead@wales.nhs.uk |
| Cyngor Deillion Cymru | https://wcb-ccd.org.uk/ |
| Cyfarwyddiadau Deddfwriaethol WGOS | https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-03/the-national-health-service-wales-eye-care-services-wales-no2-directions-2024.pdf |

**Rhybudd:**

Efallai nad dyma'r fersiwn ddiweddaraf os gwnaethoch chi lawrlwytho neu argraffu'r ddogfen.

Ewch i https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ am y fersiwn gyfredol.

# 1.0 Gwybodaeth am Wasanaeth WGOS 4

*Mae WGOS 4 yn wasanaeth lle mae cleifion a fyddai wedi cael eu hatgyfeirio at/neu eu rheoli o'r blaen yn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) yn lle hynny'n aros mewn gofal sylfaenol ar gyfer asesiad manylach pellach fel rhan o lwybr monitro neu fireinio atgyfeirio y cytunwyd arno.*

1.1. Mae WGOS 4 yn defnyddio Optometreg Gofal Sylfaenol i leihau'r galw hanesyddol mewn ysbytai trwy reoli ymgyflwyniadau o risg glinigol uwch.

1.2. Mae nod cyffredinol llwybrau clinigol WGOS 4 a 5 yn cyd-fynd â "Cymru Iachach" gan wella mynediad at ofal llygaid cleifion a rheoli mwy o gleifion yn nes at eu cartrefi, gan sicrhau bod cleifion yn aros yn iach ac yn annibynnol. Y targed yw lleihau nifer yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) o 1/3 (tua 30,000 y flwyddyn) a chynyddu capasiti mewn adrannau llygaid ysbytai trwy ryddhau 35,000 o apwyntiadau dilynol trwy fonitro, rheoli a thriniaeth mewn gofal sylfaenol. Bydd y ffigurau hyn yn cael eu monitro gan Fyrddau Iechyd.

1.3. Mae Cyfarwyddiadau Deddfwriaethol (https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2023/1053/made/welsh) yn sail i gyflawni WGOS 4.

1.4. Mae hidlo WGOS 4[1] yn defnyddio Optometryddion sydd â chymwysterau uwch mewn glawcoma a retina meddygol i dderbyn atgyfeiriadau i'w hidlo a'u rheoli mewn gofal sylfaenol lle bo'n briodol.

1.5. Mae monitro WGOS 4 yn defnyddio Optometryddion sydd â chymwysterau uwch mewn retina meddygol a glawcoma i fonitro cleifion addas a allai fel arall fod o dan ofal Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES). Gall hyn fod eu rhyddhau o Wasanaeth Llygaid mewn Ysbyty neu eu monitro yn uniongyrchol gan hidlo WGOS 4; neu gan bresgripsiynydd hydrocsiclorocwin (HCQ).

1.6. Gall optometryddion sydd wedi cwblhau cymwysterau uwch perthnasol ac sydd wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant gwasanaeth-benodol gorfodol WGOS 4 (Y Tŷ Dysgu) ddarparu gwasanaethau WGOS 4 ar gyfer contractwyr sydd â chytundeb(au) gwasanaeth perthnasol WGOS.

1.7. Darperir y gwasanaeth yn gyfan gwbl mewn Gofal Sylfaenol. Mae'r Optometrydd sy'n cyflawni'r gweithgaredd WGOS 4 yn gyfrifol am y canlyniad.

1.8. Mae claf yn gymwys ar gyfer WGOS 4 os:

- yw'n byw yng Nghymru ac/neu
- ar restr practis meddyg teulu yng Nghymru

ac mae angen clinigol wedi'i nodi.

[1] Y diffiniad yn y Cyfarwyddiadau Deddfwriaethol yw 'Mireinio Atgyfeirio'.

1.9. Mae angen clinigol yn cael ei nodi mewn un o bedwar lle:

i) Cyfnod WGOS 1 neu WGOS 2 blaenorol, neu gyfnod gofal cymharol yn breifat neu y tu allan i GIG Cymru, lle mae'r archwiliad dilynol sydd ei angen y tu hwnt i gwmpas WGOS 1 ac WGOS 2

ii) WGOS 4 blaenorol

iii) Ailgyfeirio atgyfeiriad Bwrdd Iechyd/Ysbyty i WGOS 4 neu ryddhau i WGOS 4, gan gynnwys

iv) Cais gan bresgripsiynydd HCQ

1.10. Mae gan ganlyniadau WGOS 4 dri phosibilrwydd:

i) Rhyddhau o WGOS 4

ii) Apwyntiad WGOS 4 dilynol


iii) Atgyfeirio i HES

Dylid cyflawni dyletswyddau gofal arferol eraill hefyd.

1.11. Ar gyfer unrhyw gyswllt â chlaf WGOS 4, rhaid hefyd ystyried darparu ffynonellau gwybodaeth a chymorth dibynadwy a fyddai'n cynorthwyo'r claf ag unrhyw un o'r canlynol:

- Deall eu taith gofal llygaid
- Deall eu diagnosis
- Cael mynediad at ffynonellau cymorth ymarferol ac emosiynol

## Diagram Llif Cleifion Nodweddiadol



# 2. Cytundeb Gwasanaeth a Chymhwysedd Contractwr WGOS 4

*Er mwyn darparu WGOS 4, rhaid i'r Contractwr gael Cytundeb Gwasanaeth WGOS 4 gyda'r Bwrdd Iechyd i gyd-fynd â'r lleoliad y mae'r gwasanaeth yn mynd i gael ei ddarparu ynddo.*

*Er mwyn darparu WGOS yn wasanaeth symudol, rhaid i'r Contractwr gael Cytundeb Gwasanaeth Symudol WGOS 4 gyda'r Bwrdd Iechyd i gyd-fynd â'r lleoliad y mae'r gwasanaeth yn mynd i gael ei ddarparu ynddo.*

*Rhaid i gontractwyr sicrhau bod gan yr ymarferydd sy'n cyflawni WGOS 4 ar eu rhan y cymhwyster a'r hyfforddiant a restrir yn gywir ar gyfer darparu'r gwasanaeth.*

*Mae Contractwyr a Chyflawnwyr yn atebol am holl weithredoedd a hegporiadau staff sy'n gweithio dan eu goruchwyliaeth.*

*Rhaid i gontractwyr hysbysu'r Bwrdd Iechyd am yr Optometryddion y maent yn eu cyflogi.*

*Rhaid i Bractisau, Contractwyr a Chyflawnwyr gadw eu gwybodaeth gofrestredig yn gyfredol.*

*Er mwyn dod â chytundeb gwasanaeth WGOS 4 i ben, rhaid i'r Contractwr roi o leiaf dri mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd.*

2.1. Rhaid i unrhyw Gontractwr sy'n dymuno darparu WGOS 4 wneud cais i'r Bwrdd Iechyd priodol i gael ei gynnwys yn ddarparwr WGOS 4 ar gyfer y gwasanaeth(au) perthnasol. Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â'r llawlyfr clinigol hwn. Rhaid i bob Contractwr gael Cytundeb Gwasanaeth WGOS 4 ar gyfer pob gwasanaeth WGOS 4 ym mhob Bwrdd Iechyd y mae'n dymuno darparu gwasanaethau ynddo.

2.2. Mae'n rhaid i Gontractwr sy'n darparu WGOS 4 o safle sefydlog ac sydd hefyd yn darparu WGOS 4 mewn lleoliad symudol fod â Chytundeb Gwasanaeth Symudol WGOS 4.

2.3. Yn ogystal â 2.1 a 2.2, bydd Cytundeb Gwasanaeth WGOS 4 yn nodi:

- Y gofynion o ran offer ar gyfer y gwasanaeth; a'r
- Gofynion o ran argaeledd a chysylltedd ar gyfer y gwasanaethau, gan gynnwys unrhyw amrywiad y cytunwyd arno gan y Bwrdd Iechyd (yn unol â 2.11-2.12 isod).

2.4. Mae'r Cytundebau Gwasanaeth WGOS 4 canlynol ar gael. (Cysylltwch â Thîm Gofal Sylfaenol eich Bwrdd Iechyd i drafod darparu WGOS 4. Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd - GIG Cymru) :

- ar gyfer eiddo sefydlog:
  - Retina Meddygol
  - HCQ

    - Hidlo Atgyfeiriadau Glawcoma
    - Monitro Glawcoma

- ar gyfer darparwyr symudol (ni waeth a oes ganddynt safle sefydlog ai peidio):
    - Retina Meddygol Symudol
    - HCQ Symudol
    - Hidlo Atgyfeiriadau Glawcoma Symudol
    - Monitro Glawcoma Symudol

## DIWYGIADAU I GYTUNDEB GWASANAETH WGOS 4

2.5. Rhaid i gontractwyr hysbysu'r Bwrdd Iechyd am unrhyw newidiadau perthnasol yn eu hamgylchiadau, yn enwedig unrhyw newidiadau yn y wybodaeth a ddarparwyd yn y cais gwreiddiol neu'r wybodaeth a gyhoeddwyd amdanynt. Mae cyfnodau hysbysu gwahanol yn berthnasol mewn amgylchiadau gwahanol (Gweler y tabl am enghreifftiau o ba bryd y mae angen hysbysu'r Bwrdd Iechyd a'r amserlen):

| **Rhaid hysbysu Byrddau Iechyd pan fydd:** | **Cyfnod hysbysu** |
|---|---|
| • Newidiadau i'r datganiad a wnaed gan y Contractwr<br>*e.e. euogfarn droseddol, rhybudd, cael ei gyhuddo o drosedd, unrhyw ymchwiliad gan ei gorff trwyddedu a chanlyniad unrhyw ymchwiliad, ymchwiliad gan y Gwasanaeth Atal Twyll ac unrhyw ganlyniad, ymchwiliad gan Fwrdd Iechyd Lleol arall a allai arwain at ei dynnu oddi ar restr, neu os yw wedi cael ei dynnu, ei dynnu'n amodol neu ei atal o unrhyw restr gyfatebol arall, neu y gwrthodwyd mynediad iddo, neu y cafodd ei gynnwys yn amodol ar unrhyw restr gyfatebol arall* | 7 diwrnod |
| • Newid yn y cais cyn dyfarnu Cytundeb Gwasanaeth WGOS 4 iddo | 7 diwrnod |
| • Newid(iadau) neu ychwanegiad(au) sy'n effeithio ar y manylion ar Restr Offthalmig Cymru | 14 diwrnod |

2.6. Rhaid rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd am unrhyw darfu sylweddol ar ddarpariaeth WGOS 4, er enghraifft oherwydd salwch, ac eithrio ar gyfer gwyliau statudol.

## CYFRIFOLDEBAU'R CONTRACTWR

2.7. Rhaid i gontractwyr fodloni gofynion gorfodol WGOS 1 a 2 wrth ddarparu Gwasanaethau WGOS 4, yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023, gan gynnwys:

- Cyflogi staff i gyflawni WGOS 4. Rhaid i holl staff y contractwr sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaeth WGOS 4 gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:
    - Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru - canllaw;
    - Hyfforddiant a gwaredu offer miniog, gan gynnwys atal a rheoli heintiau;
    - Hyfforddiant Gwella Ansawdd; a
    - Hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC)

  .

- Ymgynghoriadau o bell;

- Mynediad at WGOS 4;
- Y Ddyletswydd Gonestrwydd;
- Ansawdd ar gyfer Optometreg (sicrhau ansawdd) gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i adolygiadau cyflawniad, adolygiad gan gymheiriaid, mentora ac archwiliadau;
- hyfforddiant diogelu lefel 1 a 2 i Oedolion a Phlant; a
- Dilysu ar ôl Talu (PPV).

2.8. I ddod â Chytundeb Gwasanaeth WGOS 4 i ben, rhaid i'r Contractwr roi o leiaf 3 mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd, er y gellir lleihau'r cyfnod hwn trwy gytundeb ar y cyd.

2.9. Pan fydd Contractwr yn dymuno adleoli ei eiddo i leoliad gwahanol, rhaid rhoi o leiaf 3 mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd, er mewn achosion eithriadol, e.e. llifogydd yn y practis, gellir gwneud y cyfnod hwn yn fyrrach trwy gytundeb ar y cyd.

## CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD IECHYD

2.10. Bydd Byrddau Iechyd yn gyfrifol am gydgysylltu'r gwasanaeth hwn yn lleol gan gynnwys cymeradwyo practisiau optometreg ar gyfer darparu gwasanaethau.

2.11. Bydd Bwrdd Iechyd yn ceisio barn y Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol ar gyfer ei ardal wrth ystyried unrhyw ofynion sylfaenol o ran argaeledd. Mae hyn yn cynnwys ynghylch effaith y gofynion hyn ar Optometryddion sydd newydd gymhwyso mewn perthynas â WGOS 4 ac Optometryddion WGOS 4 sydd o bosibl yn gweithio mewn practisiau gwahanol ar ddiwrnodau gwahanol.

2.12. Bydd Byrddau Iechyd yn cytuno ar unrhyw amrywiad i ofynion argaeledd a chysylltedd cenedlaethol yn eu grŵp Cydweithredol Gofal Llygaid mewn ymgynghoriad â'u Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol.

2.13. Bydd Byrddau Iechyd yn cydlynu atgyfeiriadau ac achosion o ryddhau lleol yn unol ag argymhellion Set Ddata Genedlaethol WGOS (Setiau Data WGOS 4 - GIG Cymru). Bydd y set ddata yn nodi'r data clinigol sydd ei angen ar gyfer llif cleifion yn y llwybr.

2.14. Bydd Byrddau Iechyd yn ymgysylltu â chontractwyr a chyflawnwyr ar Ansawdd ar gyfer Optometreg (sicrhau ansawdd) gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i adolygiadau cyflawniad, adolygiad gan gymheiriaid, mentora ac archwiliadau;

2.15. Bydd rheoli cyflawniad yn cael ei arwain gan y Byrddau Iechyd gyda chymorth lle bo angen gan yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol. Bydd hyn yn briodol i'r pryderon a gyflwynir ac yn unol â'r prosesau ansawdd a diogelwch cleifion a sefydlwyd gan Fyrddau Iechyd ar gyfer contractwyr a chyflawnwyr annibynnol mewn gofal sylfaenol. Gall ymyriadau i gefnogi contractwyr/cyflawnwyr gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: codi pryderon gyda'r contractwr/cyflawnydd; nodi a chwblhau hyfforddiant; adolygiad gan gymheiriaid; a/neu fentora. Bydd y Bwrdd Iechyd yn penderfynu os/pan nad oes angen ymyriad mwyach. Gall methu â chymryd rhan yn yr ymyriad a awgrymwyd gan y Bwrdd Iechyd arwain at dynnu'n ôl y gymeradwyaeth ar gyfer darpariaeth gwasanaeth WGOS 4.

2.16. Gall Byrddau Iechyd dynnu'n ôl y gymeradwyaeth ar gyfer darpariaeth gwasanaeth WGOS 4 oddi wrth gontractwyr neu gyflawnwyr MR/HCQ/Glawcoma sy'n methu â bodloni unrhyw ofynion gorfodol a/neu nad ydynt yn cydymffurfio â llawlyfr WGOS 4. Dim ond mewn ymateb i bryderon ynghylch diogelwch cleifion neu ddarpariaeth gwasanaeth y bydd cymeradwyaeth yn cael ei thynnu'n ôl.

2.17. Bydd cyflawniad Optometryddion a Chontractwyr WGOS 4 yn y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro drwy ddilysu ar ôl talu ac archwiliad clinigol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r Bwrdd Iechyd perthnasol a all arfer ei bwerau presennol o dan reoliadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol yn ôl yr angen mewn achosion o gyflawniad gwael.

2.18. Bydd Byrddau Iechyd yn sicrhau bod eu llwybrau WGOS 4 ar gyfer cyflyrau retina meddygol a glawcoma ar gael i bractisau Optometreg, a byddant yn darparu diweddariadau yn ôl yr angen.

2.19. Bydd Byrddau Iechyd yn cyhoeddi canllawiau lleol yn ymwneud â'r dull atgyfeirio, gan gynnwys manylion Optometryddion WGOS 4 a'u hargaeledd ar gyfer atgyfeiriadau.

# 3. Cymhwysedd Optometrydd (cyflawnydd) WGOS 4

*Er mwyn gallu cyflawni WGOS 4, mae'n rhaid i'r Optometrydd sydd wedi'i restru ar Restr Offthalmig GIG Cymru feddu ar y cymhwyster/cymwysterau perthnasol a chwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol gofynnol WGOS 4 sy'n benodol i'r gwasanaeth.*

3.1. Rhaid i'r Optometrydd WGOS 4:

3.1.1. bod ar restr Offthalmig gyfunol PCGC yng Nghymru; ac

3.1.2. ennill y cymhwyster perthnasol (Tystysgrif Broffesiynol; Tystysgrif Uwch Broffesiynol; Diploma Proffesiynol); a

3.1.3. chwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol gofynnol WGOS 4 sy'n benodol i'r gwasanaeth yn llwyddiannus (Y Tŷ Dysgu); a

3.1.4. cymryd rhan mewn prosesau sicrwydd ansawdd WGOS; gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) adolygiad cyflawniad, adolygiad gan gymheiriaid, mentora ac archwiliadau; a

3.1.5. chadw cofnodion, gwneud hawliadau am daliadau a chymryd rhan mewn archwiliadau yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023; a

3.1.6. chynnal eu cymhwysedd yn y maes ymarfer hwn, gan gynnwys DPP hunan-arweiniol, a chwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol gofynnol (diogelu oedolion a Phlant lefel 1 a 2 bob 3 blynedd) ac yn ôl yr angen mewn ymateb i anghenion gwasanaeth; a

3.1.7. darparu tystysgrif cofnod troseddol fanwl i'r Bwrdd Iechyd o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 mewn perthynas ag ef, os bydd Bwrdd Iechyd ar unrhyw adeg, am achos rhesymol, yn ei hysbysu y dylai ddarparu tystysgrif o'r fath.

# 4. Gwasanaeth Symudol WGOS 4

*Dim ond mewn lleoliad symudol y gellir darparu WGOS 4, lle mae cyflawnydd, contractwr ac argaeledd offer yn caniatáu hynny.*

*Dim ond yng Nghymru y gellir cyflawni gwasanaethau symudol WGOS 4.*

*Mae gan gleifion hawl i wasanaeth symudol os yw amgylchiadau yn ymwneud â'u salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddynt dderbyn gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn mangre gofrestredig.*

*Rhaid i'r rheswm dros ofyn am wasanaeth symudol gael ei gofnodi ar y ffurflen hawlio yn ogystal ag ar y cofnod.*

*Nid oes gan gleifion mewnol ysbytai hawl i wasanaeth symudol WGOS 4.*

*Ni ellir darparu WGOS 4 mewn carchardai neu unedau diogel. Mae darparu gofal llygaid yn y lleoliadau hyn y tu allan i gwmpas WGOS 4 ac mae gan Fyrddau Iechyd eu cytundebau gwasanaeth eu hunain.*

*Er mwyn darparu WGOS 4 yn wasanaeth symudol, rhaid i'r Contractwr feddu ar Gytundeb Gwasanaeth WGOS 4 gyda'r Bwrdd Iechyd i gyd-fynd â'r lleoliad y mae'r gwasanaeth yn mynd i gael ei ddarparu ynddo.*

4.1. Gellir darparu WGOS 4 mewn lleoliadau symudol mewn byrddau iechyd lle mae cyflawnydd, contractwr ac argaeledd offer yn caniatáu hynny. Gellir cyflwyno archwiliadau WGOS 4 fel gwasanaeth symudol, os:

- mae claf yn gymwys i gael gwasanaethau symudol (gweler pwynt 4.2); ac
- mae gan y Contractwr Gytundeb Gwasanaethau Symudol WGOS 4 gyda'r Bwrdd Iechyd i gyd-fynd â'r lleoliad y mae'r gwasanaeth yn mynd i gael ei ddarparu ynddo.

Mewn achosion o'r fath, dylid hawlio'r ffi symudol yn ogystal â ffi WGOS 4.

## CYMHWYSEDD CLAF AR GYFER GWASANAETHAU SYMUDOL WGOS 4

4.2. Mae cleifion yn gymwys ar gyfer gwasanaethau symudol WGOS 4 os yw amgylchiadau mewn perthynas â'u salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddynt gael gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn mangre gofrestredig.

4.3. Nid oes angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw i ddarparu gwasanaeth symudol. Fodd bynnag, dylai'r Ymarferydd allu cyfiawnhau'n rhesymol pam y cafodd ei gynnal, a rhaid i'r rheswm dros fod angen gwasanaeth symudol gael ei gofnodi'n glir ar gofnod a ffurflen hawlio'r claf.

## CYNNIG GWASANAETH SYMUDOL WGOS 4

4.4. Os nodir bod angen gwasanaeth symudol WGOS 4 ar glaf, ac nad oes gwasanaeth symudol ar gael, dylid atgyfeirio i wasanaethau GIG priodol eraill, e.e. gwasanaethau mewn ysbytai, a wasanaethir gan Wasanaethau Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. Dylai atgyfeiriadau o'r fath ei gwneud yn glir pam nad ydynt yn dilyn llwybr WGOS 4, fel nad ydynt yn cael eu hailgyfeirio i WGOS 4 o wasanaethau mewn ysbytai.

4.5. Lle mae gwasanaethau symudol ar gael, dylai'r Optometrydd nad yw'n arbenigo mewn WGOS 4 atgyfeirio'r claf at Optometrydd gwasanaethau symudol WGOS 4 i gael asesiad symudol pan fo angen un. Dylai Optometrydd WGOS 4 atgyfeirio'r claf at Optometrydd gwasanaethau symudol WGOS 4 os nad yw'n gallu darparu asesiad symudol pan fo angen un.

4.6. Os nad yw claf yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau symudol ond mae'n dymuno i wasanaeth symudol gael ei gyflawni, gall Optometrydd WGOS 4 y mae gan ei Gontractwr Gytundeb Gwasanaeth Gwasanaethau Symudol WGOS gyda'r Bwrdd Iechyd i gyd-fynd â'r lleoliad y mae'r gwasanaeth yn mynd i gael ei ddarparu ynddo ddarparu apwyntiad mewn lleoliad symudol a hawlio'r ffi WGOS 4 briodol, ond ni fydd modd hawlio ffi symudol.

## LLEOLIAD GWASANAETH SYMUDOL WGOS 4

4.7. Dim ond yng Nghymru y gellir cyflawni gwasanaethau symudol WGOS 4.

4.8. Nid yw cleifion mewnol ysbytai yn gymwys ar gyfer gwasanaethau symudol WGOS 4. Mae darparu gofal llygaid yn y lleoliadau hyn y tu allan i gwmpas WGOS 4 ac mae gan Fyrddau Iechyd eu trefniadau/cytundebau gwasanaeth eu hunain ar gyfer y cleifion hyn.

4.9. Ni ellir darparu WGOS 4 mewn carchardai neu unedau diogel. Mae darparu gofal llygaid yn y lleoliadau hyn y tu allan i gwmpas WGOS 4 ac mae gan Fyrddau Iechyd eu cytundebau gwasanaeth eu hunain.

## HAWLIO GWASANAETH SYMUDOL WGOS 4

4.10. Ni chaiff Contractwr hawlio WGOS 4 fel gwasanaeth symudol oni bai:

- bod ganddo Gytundeb Gwasanaeth Gwasanaethau Symudol WGOS gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol ar gyfer y lleoliad y mae'r gwasanaethau symudol i'w darparu ynddo;
- bod y claf neu ei ofalwr yn gwneud cais i'r cyfnod WGOS 4 gael ei ddarparu mewn lleoliad symudol; a
- bod amgylchiadau'r claf mewn perthynas â'i salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddo gael gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn mangre gofrestredig.

# 5. WGOS 4 – Retina Meddygol

*Mae Gwasanaeth Retina Meddygol WGOS 4 yn cynnwys hidlo atgyfeiriadau a monitro cyflyrau retina meddygol.*

*Darperir y gwasanaeth yn gyfan gwbl mewn Gofal Sylfaenol. Mae'r Optometrydd sy'n cyflawni'r gweithgaredd WGOS 4 yn gyfrifol am y canlyniad.*

5.1. Bwriad y gwasanaeth hwn yw hidlo atgyfeiriadau retina meddygol a'u rheoli mewn gofal sylfaenol lle bo'n briodol. Bwriedir hefyd ddarparu monitro ar gyfer cleifion addas a nodir yn Hidlo WGOS 4 neu sydd wedi'u ryddhau o Wasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) gyda chynllun rheoli sy'n benodol i'r cyflwr/gwybodaeth rhyddhau a'u hatgyfeirio yn ôl i HES os/pan fo'n briodol. Rhaid i gontractwyr gynnig hidlo a monitro atgyfeiriadau yn rhan o'r gwasanaeth.

5.2. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn disodli gwasanaethau retina meddygol mewn gofal eilaidd. Bwriedir iddo ddarparu capasiti ychwanegol mewn gofal sylfaenol a lleihau'r galw am ofal eilaidd trwy hidlo allan cleifion nad oes angen eu hatgyfeirio i ofal eilaidd ac y gellir eu monitro/rheoli gan Optometrydd Retina Meddygol (Optometrydd MR) gyda'r cymhwyster priodol.

## ARCHWILIADAU RETINA MEDDYGOL – CYMHWYSEDD OPTOMETRYDD

5.3. Rhaid i'r Optometrydd Retina Meddygol WGOS 4 gydymffurfio â gofynion adran 3 "Cymhwysedd Optometrydd (cyflawnydd) WGOS 4" y llawlyfr clinigol hwn, ac:

- ennill cymhwyster Tystysgrif Broffesiynol mewn Retina Meddygol (Prof Cert Med Ret) neu gymhwyster Tystysgrif Uwch Broffesiynol mewn Retina Meddygol (Higher Cert Med Ret), a
- chwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol gofynnol Retina Meddygol WGOS 4 (Y Tŷ Dysgu) yn llwyddiannus.

## RETINA MEDDYGOL- CADW COFNODION

5.4. Dylid cadw cofnodion MR WGOS 4 yn unol â'r llawlyfr hwn a chanllawiau Coleg yr Optometryddion. Yn benodol:

- rhaid i gyfnodau Hidlo Retina Meddygol (MRF) a Monitro Retina Meddygol (MRM) WGOS 4 fod yn amlwg yng nghofnod y claf, e.e. ar dudalen/sgrin ar wahân i gyfnodau gofal eraill a thrwy eu labelu'n "WGOS 4 MRF" neu "WGOS 4 MRM" fel y bo'n briodol;
- rhaid cofnodi manylion yr Optometrydd sy'n atgyfeirio neu'r atgyfeiriad atoch chi;
- rhaid cadw copïau o atgyfeiriadau i mewn i'r gwasanaeth ac allan ohono, gan gynnwys manylion cyfeirio ac atgyfeirio ar gyfer cymorth anghlinigol; a

- rhaid cadw copïau o adroddiadau.

## RETINA MEDDYGOL – HAWLIADAU

5.5. Bydd Optometryddion MR yn cyflwyno Asesiadau Hidlo Retina Meddygol (MRF) WGOS 4 yn dilyn atgyfeiriad cymwys. Mae ffi MRF WGOS 4 yn cael ei hawlio yn annibynnol ar ganlyniad y cyfnod.

5.6. Bydd Optometryddion MR hefyd yn darparu Asesiadau Monitro Retina Meddygol (MRM) WGOS 4 ar gyfer cleifion addas a atgyfeiriwyd o wasanaeth MRF, ac/neu wasanaeth MRM blaenorol, ac/neu sydd wedi'u rhyddhau o HES, yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd. Gellir hawlio ffi MRM WGOS 4 yn annibynnol ar ganlyniad y cyfnod.

**NODER** bod yn rhaid i gyfnodau MRF WGOS 4 ac MRM WGOS 4 fod yn amlwg yng nghofnod y claf, fel arall bydd y ffi yn cael ei hadennill.

5.7. Bydd taliadau ar gyfer practisiau sy'n darparu asesiadau MR WGOS 4 yn cael eu hawlio drwy gyflwyno manylion ar-lein i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

5.8. Gwneir hawliadau ar-lein ar ddiwedd yr ymgynghoriad neu o fewn 28 diwrnod gan yr Optometrydd MR WGOS 4, neu gan aelod o staff y Contractwr gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Optometrydd MR WGOS 4. Bydd gan bob practis system gyflwyno electronig, wedi'i hwyluso gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

5.9. Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gwneud taliadau MR WGOS 4 ar ran Byrddau Iechyd.

5.10. Mae dyddiadau terfyn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer cyflwyno hawliadau yn berthnasol i'r gwasanaeth hwn. Bydd y Bwrdd Iechyd yn dewis p'un ai i dalu hawliadau hwyr ai peidio.

5.11. Bydd hawliadau a wneir gan Gontractwyr a restrir ar gyfer gweithgarwch MR WGOS 4 yn cael eu derbyn gyda'r set ddata genedlaethol. (Setiau Data WGOS 4 - GIG Cymru)

# 6. Archwiliadau Hidlo Retina Meddygol (MRF).

## MEINI PRAWF CYMHWYSEDD CLAF MRF

6.1. Bydd Optometryddion MR WGOS 4 yn derbyn atgyfeiriadau lle bo'n briodol gan Optometrydd sydd wedi cwblhau ymgynghoriad lle mae'n ymddangos bod yna gyflwr retina meddygol na all yr Optometrydd nad yw'n arbenigo mewn retina meddygol ei reoli. Gall atgyfeiriadau o'r fath:

- Gael eu gwneud yn uniongyrchol gan Optometrydd, neu
- Gael eu hailgyfeirio yn dilyn brysbennu gan yr HES.

6.2. Ni fydd yr Optometrydd MR yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer cleifion y maent yn penderfynu eu bod yn debygol o fod angen triniaeth frys mewn gofal eilaidd ar gyfer problem llygaid sydd y tu allan i gwmpas ymarfer Optometrydd MR, e.e. datodiad retinol. Dylai'r Optometrydd nad yw'n arbenigo mewn retina meddygol atgyfeirio'r claf at ofal eilaidd, yn unol â llwybrau lleol.

6.3. Gall yr Optometrydd MR WGOS 4 ddarparu'r gwasanaeth hwn i unrhyw glaf sydd, yn ei farn glinigol, yn debygol o fod angen archwiliad retina meddygol na all Optometrydd nad yw'n arbenigo mewn retina meddygol ei ddarparu.

## LLWYBR MRF

### *Atgyfeirio i'r llwybr*

6.4. Mae Optometrydd yn nodi cyflwr na all Optometrydd nad yw'n arbenigo mewn retina meddygol ei reoli ac felly mae angen ei atgyfeirio ymlaen at Optometrydd MR WGOS 4 i'w archwilio a'i reoli. Yn y lle cyntaf ac yn unol â rheoliadau a Gofal Iechyd Darbodus, dylid atgyfeirio'r claf at Optometrydd Gofal Sylfaenol sydd â chymwysterau sy'n briodol i anghenion y claf (yn yr achos hwn, Optometrydd MR WGOS 4).

6.5. Gall yr atgyfeiriad ar gyfer Archwiliad MR fod naill ai o un practis i'r llall (atgyfeiriad rhwng practisiau) neu rhwng Optometryddion mewn practis (atgyfeiriad o fewn practis). Dylid gwneud atgyfeiriadau gan ddefnyddio Set Ddata Genedlaethol WGOS a thempled atgyfeirio WGOS yn unol â'r canllawiau atgyfeirio lleol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd. (Setiau Data WGOS 4 - GIG Cymru, Templedi WGOS 4 - GIG Cymru, Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd - GIG Cymru)

6.6. Rhaid i'r Optometrydd atgyfeirio o fewn amserlen glinigol briodol yn unol â'r canllawiau gweithredol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd, a hynny gan ddefnyddio'r dull penodedig, e.e. dros y ffôn, mewn e-bost, trwy'r post.

6.7. Ar gyfer atgyfeiriadau brys, rhaid i'r atgyfeiriwr ffonio'r practis MR i sicrhau bod yr Optometrydd MR WGOS 4 yn gallu derbyn yr atgyfeiriad a bod modd rheoli'r atgyfeiriad yn

briodol yn y practis MR. Rhaid i'r atgyfeiriwr fod yn barod i roi manylion a diagnosis dros dro i'r claf er mwyn gallu cofnodi hyn; ni fydd yr Optometrydd MR WGOS 4 o reidrwydd yn cymryd yr alwad ffôn ei hun. Os bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 o'r farn na ellir rheoli'r claf yn briodol yn y practis MR, bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn cynghori'r atgyfeiriwr i wneud atgyfeiriad i'r HES brys neu lwybr lleol arall.

6.8. Os yw'r atgyfeiriwr yn ansicr a ddylai'r Optometrydd MR weld y claf, dylai ffonio'r practis MR yn gyntaf i drafod yr achos cyn ffonio'r HES.

6.9. Pan fydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn cytuno i dderbyn atgyfeiriad gan Optometrydd, dylid darparu atgyfeiriad, e.e. mewn e-bost, trwy'r post neu'n bersonol fel y bo'n briodol, i'r Optometrydd MR WGOS 4 gan ddefnyddio templed atgyfeirio WGOS (Templedi WGOS 4 - GIG Cymru) , neu system arall y cytunwyd arni rhwng y Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol a'r Bwrdd Iechyd, e.e. atgyfeiriad electronig. Dylid hefyd anfon copi o'r atgyfeiriad at feddyg teulu'r claf neu hysbysu'r meddyg teulu o'r camau a gymerwyd mewn ffordd arall.

6.10. Mae gofal y claf yn cael ei drosglwyddo i'r Optometrydd MR WGOS 4:

- ar gyfer atgyfeiriadau nad ydynt yn rhai brys, pan anfonir yr atgyfeiriad; ac
- ar gyfer atgyfeiriadau brys, pan fydd yr atgyfeiriad yn cael ei dderbyn dros y ffôn a'i ddarparu i'r Optometrydd MR fel uchod.

Ar ôl cynnal archwiliad, os bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn gwneud penderfyniad clinigol i atgyfeirio'r claf i'r HES, fe fydd yn gyfrifol am yr atgyfeiriad hwn.

6.11. Gellir atgyfeirio achosion addas hefyd at WGOS 4 yn dilyn brysbennu gan y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd.

6.12. Ni fydd y practis MR yn ceisio cadw claf a atgyfeiriwyd at MR WGOS 4 ar gyfer gofal llygaid arall.

## *Archwiliad*

6.13. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn derbyn neu'n gwrthod atgyfeiriadau yn unol â'r meini prawf cymhwysedd claf (6.1-6.3 uchod) ac yn cynnig apwyntiad o fewn amserlen briodol gan ddefnyddio ei farn glinigol. Rhaid i hyn gynnwys atgyfeiriadau rhwng practisiau ac o fewn practis.

6.14. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn cynnal archwiliad MR WGOS 4 sy'n briodol i unrhyw symptomau sy'n ymgyflwyno ac atgyfeiriad; yn rheoli a chynghori'r claf yn briodol; ac yn trefnu gwasanaeth dilynol ac/neu'n atgyfeirio neu'n rhyddhau'r claf. Mae hwn yn archwiliad a arweinir gan anghenion; felly dylai'r Optometrydd MR WGOS 4 gynnal profion sy'n berthnasol i anghenion y claf a'r set ddata genedlaethol. (Setiau Data WGOS 4 - GIG Cymru).

6.15. Dylai'r Optometrydd MR WGOS 4 ei gwneud yn glir i'r claf nad yw'n cynnal Prawf Golwg (sef prawf sy'n arwain at bresgripsiwn sbectol).

6.16. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn defnyddio barn glinigol i benderfynu pryd bydd y gofal wedi'i gwblhau.

6.17. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn mynd ati i geisio cefnogi claf trwy ddarparu, cyfeirio ac/neu atgyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chymorth dibynadwy, yn rhan o ymgynghoriad. Bydd Cyngor y Deillion Cymru yn cyhoeddi canllawiau lleol. Dylid darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn y fformat hygyrch sydd orau gan y claf.

NODER: Ni fydd y practis MR yn ceisio cadw claf a atgyfeiriwyd at MR WGOS 4 ar gyfer gofal llygaid arall

6.18. Rhaid anfon adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol ac ar ddiwedd y gofal at:

- yr Optometrydd sy'n atgyfeirio
- meddyg teulu'r claf
- y claf
- darparwyr gofal perthnasol eraill i'r claf, e.e. ei Offthalmolegydd, lle bo'n briodol.

## CLEIFION NAD YDYNT YN MYNYCHU

6.19. Bydd y Contractwr WGOS 4 yn gyfrifol am reoli atgyfeiriadau a dderbynnir gan gynnwys cysylltu â chleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiad(au) a hysbysu'r Optometrydd sy'n atgyfeirio a'r Meddyg Teulu.

6.20. Bydd yn ofynnol i gontractwyr WGOS 4 gyflwyno cyfanswm misol yr achosion lle methodd cleifion â mynychu eu hapwyntiad, er mwyn llywio gwerthusiad gwasanaeth.

## YMGYNGHORIADAU O BELL

6.21. Gellir cyflawni agweddau o MR WGOS 4, ond nid cyfnodau cyfan, o bell ac/neu yn rhithiol. Yr Optometrydd MR WGOS 4 sy'n cynnal yr archwiliad fydd yn penderfynu hyn. Mewn achosion o'r fath, nid oes ffi symudol oherwydd ni fyddai'r Optometrydd MR WGOS 4 wedi gadael y practis.

## CADW COFNODION

6.22. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn cadw cofnod o'r broses brysbennu a'r cyngor a roddir i atgyfeirwyr brys/atgyfeirwyr brys posibl, ynghyd â'r dyddiad brysbennu. Bydd hyn yn berthnasol mewn achosion lle caiff atgyfeiriadau brys eu derbyn ac ym mhob achos ar gyfer atgyfeiriadau nad ydynt yn rhai brys, a hefyd bydd yr Optometrydd yn cadw cofnod o'r dyddiad a argymhellir ar gyfer Archwiliad MR a'r dyddiad y bu'r claf yn bresennol. Mae hyn yn cynnwys cofnodi atgyfeiriadau MR brys posibl na ellir eu derbyn oherwydd nad oes argaeledd. Rhaid i gofnodion brysbennu fod ar gael i'r bwrdd iechyd ar gais.

6.23. Rhaid i'r Optometrydd MR WGOS 4 gadw cofnodion digonol o'r ymgynghoriad gan gynnwys y trefnau rheoli, e.e. cynllun dilynol/atgyfeiriad, a chyngor a roddir i'r claf.

6.24. Bydd cofnodion yn destun archwiliadau arferol at ddibenion dilysu ar ôl talu ac archwiliad clinigol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r Bwrdd Iechyd perthnasol.

## GWNEUD CAIS AM MRF WGOS 4

6.25. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 (neu Optometrydd MR WGOS 4 arall) yn cynnal apwyntiadau MRF WGOS 4 pan fo angen clinigol i atal/lleihau nifer yr atgyfeiriadau i rannau eraill o'r GIG, gan gynnwys Offthalmoleg. Gellir hawlio ffi am bob asesiad MRF a wnaed gan yr Optometrydd MR WGOS 4.

6.26. Gall yr Optometrydd MR WGOS 4 hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu harchwilio, ni waeth a yw'r claf yn cael ei ryddhau wedi hynny, yn cael ei atgyfeirio i Fonitro MR WGOS 4, neu'n cael ei atgyfeirio i HES.

6.27. Ni all Optometryddion nad ydynt yn arbenigo mewn retina meddygol gynnal asesiadau MR WGOS 4.

6.28. Bydd cofnodion yr Optometrydd MR WGOS 4 yn cofnodi'n glir y rhesymeg a'r rheidrwydd clinigol ar gyfer pob asesiad at ddibenion archwilio.

6.29. Ni fydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion nad ydynt wedi cael eu harchwilio.

# 7. Archwiliadau Monitro Retina Meddygol (MRM)

## MEINI PRAWF CYMHWYSEDD CLAF MRM

7.1. Bydd Optometryddion MR WGOS 4 yn cynnig archwiliadau MRM WGOS 4 yn dilyn

- ymgynghoriad MRF WGOS 4 pan ellir rheoli'r cyflwr retina meddygol o fewn cylch gwaith MRM, yn unol â chanllawiau lleol; a
- rhyddhau cleifion MR addas, na ellir eu rheoli gan optometrydd nad yw'n arbenigo mewn retina meddygol, o ofal eilaidd, yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd.

## LLWYBR MRM

### *Atgyfeirio i'r llwybr*

7.2. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn derbyn neu'n gwrthod atgyfeiriadau yn unol â'r meini prawf cymhwysedd (7.1 uchod), ac atgyfeiriadau ac achosion o ryddhau a ailgyfeiriwyd gan HES yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd. Bydd yr Optometrydd MR yn cynnig apwyntiad o fewn amserlen briodol gan ddefnyddio ei farn glinigol.

### *Archwiliad*

7.3. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn cynnal asesiadau MRM WGOS 4 pan fo angen clinigol i atal/lleihau nifer yr atgyfeiriadau i rannau eraill o'r GIG, gan gynnwys Offthalmoleg.

7.4. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn cynnal archwiliad MRM WGOS 4 sy'n briodol i'r achos; yn rheoli a chynghori'r claf yn briodol; ac yn ysgrifennu ac yn trefnu gwasanaeth dilynol ac/neu'n atgyfeirio'r claf i wasanaethau llygaid ysbyty pan fo angen clinigol. Mae hwn yn archwiliad a arweinir gan anghenion; felly dylai'r Optometrydd MR WGOS 4 gynnal profion sy'n berthnasol i anghenion y claf a Set Ddata Genedlaethol WGOS. (Setiau Data WGOS 4 - GIG Cymru)

7.5. Dylai'r Optometrydd MR ei gwneud yn glir i'r claf nad yw'n cynnal Prawf Golwg (sef prawf sy'n arwain at bresgripsiwn sbectol).

7.6. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn defnyddio barn glinigol i benderfynu a yw'r gofal MRM wedi'i gwblhau a phryd.

7.7. Bydd yr Optometrydd MR yn mynd ati i geisio cefnogi claf trwy ddarparu, cyfeirio ac/neu atgyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chymorth dibynadwy, yn rhan o archwiliad. Bydd Cyngor y Deillion Cymru yn cyhoeddi canllawiau lleol. Dylid darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn y fformat hygyrch sydd orau gan y claf.

NODER na fydd y practis MRM yn ceisio cadw claf a atgyfeiriwyd at MR WGOS 4 ar gyfer gofal llygaid arall.

7.8. Rhaid anfon adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol ac ar ddiwedd y gofal at:

- yr Optometrydd sy'n atgyfeirio (gan gynnwys ar gyfer atgyfeiriad wedi'i ailgyfeirio gan yr HES)
- meddyg teulu'r claf
- y claf
- darparwyr gofal perthnasol eraill i'r claf, e.e. ei ddiabetolegydd

## CADW COFNODION

7.9. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn cadw cofnod o'r dyddiad a argymhellir ar gyfer Archwiliad MRM a'r dyddiad y bu'r claf yn bresennol.

7.10. Rhaid i'r Optometrydd MR WGOS 4 gadw cofnodion digonol o'r ymgynghoriad gan gynnwys y trefnau rheoli, e.e. cynllun dilynol/atgyfeiriad, a chyngor a roddir i'r claf.

7.11. Bydd cofnodion yr Optometrydd MR yn cofnodi'n glir y rhesymeg a'r rheidrwydd clinigol ar gyfer pob asesiad at ddibenion archwilio.

7.12. Bydd cofnodion yn destun archwiliadau arferol at ddibenion dilysu ar ôl talu ac archwiliad clinigol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r Bwrdd Iechyd perthnasol.

## CLEIFION NAD YDYNT YN MYNYCHU

7.13. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn gyfrifol am reoli atgyfeiriadau a dderbynnir gan gynnwys cysylltu â chleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiad(au) a hysbysu meddyg teulu'r claf ac/neu'r atgyfeiriwr.

7.14. Bydd yn ofynnol i gontractwyr WGOS 4 gyflwyno cyfanswm misol yr achosion lle methodd cleifion â mynychu eu hapwyntiad, er mwyn llywio gwerthusiad gwasanaeth.

## HAWLIO

7.15. Gellir hawlio ffi am bob asesiad MRM a wnaed gan yr Optometrydd MR WGOS 4. Dim ond un ffi y gellir ei hawlio, ni waeth sawl ymweliad sydd ei angen i'w gwblhau.

7.16. Gall yr Optometrydd MR hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu harchwilio, ni waeth a yw'r claf yn cael ei ryddhau wedi hynny, yn cael ei atgyfeirio i MRM, neu'n cael ei atgyfeirio i'r HES.

7.17. Ni all Optometryddion nad ydynt yn arbenigo mewn retina meddygol gynnal apwyntiadau MRM.

7.18. Ni fydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion nad ydynt wedi cael eu harchwilio.

# 8. WGOS 4 – Monitro Hydrocsiclorocwin/Clorocwin (HCQ)

*Nod y gwasanaeth yw nodi cleifion sydd mewn perygl o golli eu golwg oherwydd gwenwyndra retinol trwy fonitro.*

8.1. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i fwriadu ar gyfer monitro cleifion sydd mewn perygl o wenwyndra retinol hydrocsiclorocwin neu glorocwin.

8.2. Bwriedir darparu'r gwasanaeth hwn mewn gofal sylfaenol yn unig, gyda chleifion yn cael eu hatgyfeirio i ofal eilaidd dim ond pan fo angen clinigol.

8.3. Bydd Optometryddion MR yn darparu HCQ WGOS 4 yn dilyn atgyfeiriad cymwys. Mae ffi HCQ WGOS 4 yn cael ei hawlio yn annibynnol ar ganlyniad y cyfnod.

**NODER** bod yn rhaid i gyfnodau HCQ WGOS 4 fod yn amlwg yng nghofnod y claf, fel arall bydd y ffi yn cael ei hadennill.

## MONITRO HCQ – MEINI PRAWF CYMHWYSEDD CLAF

8.4. Bydd Optometryddion MR WGOS 4 yn derbyn atgyfeiriadau lle bo'n briodol gan bresgripsiynydd HCQ/Clorocwin (y 'meddyg sy'n rhagnodi') lle mae'n ymddangos bod yna risg o wenwyndra retinol HCQ/clorocwin yn seiliedig ar feini prawf Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr;

- Dylai pob unigolyn sydd wedi cymryd hydrocsiclorocwin am fwy na phum mlynedd gael ei fonitro'n flynyddol ar gyfer retinopathi.
- Dylai pob unigolyn sydd wedi cymryd clorocwin am fwy na blwyddyn gael ei fonitro'n flynyddol ar gyfer retinopathi.
- Gall pob unigolyn sy'n cymryd hydrocsiclorocwin sydd â ffactorau risg ychwanegol ar gyfer gwenwyndra retinol gael ei fonitro'n flynyddol ar ôl cychwyn therapi. Y meddyg sy'n rhagnodi sydd i benderfynu a oes yna ffactorau risg ychwanegol.

8.5. Nid yw monitro llinell sylfaen yn faen prawf cymhwysedd ar gyfer mynediad at y gwasanaeth.

## MONITRO HCQ – CYMHWYSEDD OPTOMETRYDD

8.6. Rhaid i'r Optometrydd Retina Meddygol WGOS 4 gydymffurfio â gofynion adran 3 "Cymhwysedd Optometrydd (cyflawnydd) WGOS 4" y llawlyfr clinigol hwn, ac:

- ennill cymhwyster Tystysgrif Broffesiynol mewn Retina Meddygol (Prof Cert Med Ret) neu gymhwyster Tystysgrif Uwch Broffesiynol mewn Retina Meddygol (Higher Cert Med Ret), a

- chwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol gofynnol Retina Meddygol WGOS 4 (Y Tŷ Dysgu) yn llwyddiannus.

## GWASANAETH SYMUDOL MONITRO HCQ

8.7. Pe bai'r claf yn bodloni'r meini prawf ar gyfer darpariaeth symudol fel yr amlinellir yn adran 4 "Gwasanaeth Symudol WGOS 4" y llawlyfr clinigol hwn, yna dylai'r presgripsiynydd anfon y cais am wasanaeth Monitro HCQ WGOS 4 at ddarparwr gwasanaeth perthnasol.

8.8. Os nad oes unrhyw ddarparwyr symudol ar gyfer Monitro HCQ WGOS 4, yna'r Bwrdd Iechyd fydd yn gyfrifol am ddiwallu anghenion y claf o ran darpariaeth monitro HCQ. Ni fydd hyn o reidrwydd yn cael ei ddarparu mewn lleoliad symudol.

## YMGYNGHORIADAU O BELL

8.9. Gellir cyflawni agweddau o HCQ WGOS 4, ond nid cyfnodau cyfan, o bell ac/neu yn rhithiol. Yr Optometrydd MR WGOS 4 sy'n cynnal yr archwiliad fydd yn penderfynu hyn. Mewn achosion o'r fath, nid oes ffi symudol oherwydd ni fyddai'r Optometrydd MR WGOS 4 wedi gadael y practis.

## LLWYBR MONITRO HCQ

### *Cael mynediad at y gwasanaeth - rôl y meddyg sy'n rhagnodi*

8.10. Mae'r meddyg sy'n rhagnodi yn nodi claf sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer monitro HCQ/clorocwin.

8.11. Yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a Choleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, cyfrifoldeb y meddyg sy'n rhagnodi yw gofyn am wasanaeth Monitro HCQ/clorocwin WGOS 4 ar gyfer cleifion cymwys.

8.12. Dylai'r meddyg sy'n rhagnodi gwblhau profforma cais cenedlaethol (Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol Eraill - GIG Cymru) yn nodi'r manylion clinigol allweddol sy'n berthnasol i fonitro gwenwyndra retinol. Bydd hyn yn caniatáu pennu risg gwenwyndra a dehongli canlyniadau profion. Dylai hyn gynnwys:

- Y cyffur a ragnodwyd
- Hyd y presgripsiwn
- Presenoldeb neu absenoldeb ffactorau risg ychwanegol
- Presenoldeb neu absenoldeb cyflyrau retinol hysbys eraill
- Presenoldeb neu absenoldeb gwenwyndra HCQ blaenorol

8.13. Rhaid i'r meddyg sy’n rhagnodi ofyn am wasanaeth Monitro HCQ/clorocwin WGOS 4 o fewn amserlen glinigol briodol yn unol â'r canllawiau gweithredol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd, a hynny gan ddefnyddio’r dull penodedig, e.e. dros y ffôn, mewn e-bost, trwy’r post.

8.14. Rhaid i'r meddyg sy’n rhagnodi ddarparu cais monitro HCQ/clorocwin WGOS 4, h.y. mewn e-bost, trwy’r post neu’n bersonol fel y bo'n briodol (neu system arall y cytunwyd arni rhwng y Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol a'r Bwrdd Iechyd, e.e. atgyfeiriad electronig), i’r Optometrydd MR WGOS 4. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth a amlinellwyd uchod (yn 8.12).

8.15. Y meddyg sy’n rhagnodi sy'n gyfrifol am ofalu am y claf. Rôl yr Optometrydd MR yw asesu gwenwyndra retinol a hysbysu'r meddyg sy’n rhagnodi o ganlyniadau'r asesiad. Dim ond y meddyg sy’n rhagnodi fydd yn cynghori'r claf ar barhau â hydrocsiclorocwin/clorocwin neu roi’r gorau iddynt.

8.16. Pan na all claf sy'n cymryd hydrocsiclorocwin neu glorocwin gael ei fonitro, neu le na ellir cyflawni delweddu retinol na dehongli delweddau, argymhellir cynnal sgwrs rhwng y claf a'r meddyg sy’n rhagnodi i benderfynu a ddylid parhau â thriniaeth hydrocsiclorocwin heb wasanaeth monitro retinol.

8.17. Ni fydd cleifion yn cael eu galw'n ôl o bryd i'w gilydd gan yr Optometrydd MR; cyfrifoldeb y meddyg sy’n rhagnodi yw gofyn am wasanaeth Monitro HCQ/clorocwin WGOS 4 bob tro y mae ei angen ar glaf.

8.18. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn derbyn neu’n gwrthod atgyfeiriadau yn unol â’r meini prawf cymhwysedd a amlinellir yn 8.11 ac yn cynnig apwyntiad o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr atgyfeiriad. Dim ond ceisiadau cyflawn ar gyfer HCQ/clorocwin WGOS 4 gan feddygon sy’n rhagnodi fydd yn cael eu derbyn. Bydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu dychwelyd at y meddyg sy’n rhagnodi.

8.19. Bwriedir darparu’r gwasanaeth hwn mewn gofal sylfaenol yn unig, gyda chleifion yn cael eu hatgyfeirio i ofal eilaidd dim ond pan fo angen clinigol. Ni ddisgwylir y bydd atgyfeiriadau ar gyfer monitro HCQ/clorocwin yn cael eu gwneud i'r HES gan y meddyg sy’n rhagnodi.

### *Archwiliad gan Optometrydd MR*

8.20. Bydd yr Optometrydd WGOS 4 yn cyflawni'r gwaith monitro HCQ/clorocwin yn unol â'r algorithm monitro.

8.21. Yn ogystal â chyfathrebu llafar, dylid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig am retinopathi HCQ/clorocwin a monitro ar gyfer retinopathi HCQ/clorocwin i bob claf.

8.22. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn mynd ati i geisio cefnogi claf trwy ddarparu, cyfeirio ac/neu atgyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chymorth dibynadwy, yn rhan o archwiliad. Bydd Cyngor y Deillion Cymru yn cyhoeddi canllawiau lleol. Dylid darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn y fformat hygyrch sydd orau gan y claf.

8.23. Dylai pob claf gael tomograffeg cydlyniad optegol parth sbectrol (SD-OCT) ac awtofflworoleuedd fundus (FAF). Bydd cipio awtofflworoleuedd (FAF) ar ffurf maes llydan os yw ar gael, neu'n fosaig lle nad yw galluoedd maes llydan ar gael.

8.24. Dylai cleifion ag annormaleddau ar ddelweddu SD-OCT neu awtofflworoleuedd fundus gael prawf maes gweledol awtomataidd gan ddefnyddio protocol 10-2 neu 30-2, gan ddibynnu ar leoliad yr annormaledd strwythurol. Gall cleifion â namau paracentral elwa o brawf maes gweledol 10-2, a gall y rhai â chlefyd pericentral elwa o brawf maes gweledol 30-2.

8.25. Gellir cynnal asesiad maes gweledol (VF) mewn ymweliad ar wahân os defnyddir diferion llygaid ymledol ar gyfer delweddu, neu mewn clinigau rhithwir pan gaiff delweddau eu hadolygu ar ôl i'r claf ymweld. Fodd bynnag, dim ond un ffi HCQ/clorocwin WGOS 4 y gellir ei hawlio fesul cyfnod monitro HCQ/clorocwin.

8.26. Rhaid cynnal asesiad VF ym mhob achos lle canfyddir annormaledd retinol sy'n awgrymu gwenwyndra HCQ/clorocwin. Bydd methu â chwblhau a darparu canlyniadau asesiad VF yn golygu na fydd yr atgyfeiriad yn cael ei dderbyn gan yr HES.

8.27. Efallai na fydd rhai cleifion sydd mewn perygl o gael retinopathi HCQ/clorocwin yn gallu cael y profion monitro gofynnol, ac mewn rhai achosion efallai y bydd cyd-patholeg ocwlar sy'n atal cipio delweddau mae modd eu dehongli. Gellir nodi hyn yn ystod y cyfnod monitro cyntaf neu ddilynol a rhaid rhoi gwybod amdano i'r meddyg sy'n rhagnodi.

### *Canlyniad/Cynllun Rheoli*

8.28. Yn dilyn monitro HCQ/clorocwin, dylid dosbarthu'r canlyniad fel isod a rhoi gwybod i'r meddyg sy'n rhagnodi gan ddefnyddio'r templed cenedlaethol.

| DOSBARTHIAD | NODWEDDION CLINIGOL |
|---|---|
| **DIM GWENWYNDRA** | Dim annormaleddau sy'n awgrymu gwenwyndra wedi'u canfod ar SD-OCT neu FAF. |
| **GWENWYNDRA POSIBL** | Canlyniad SD-OCT <u>neu</u> FAF sy'n nodweddiadol o retinopathi hydrocsiclorocwin, meysydd gweledol yn normal. Claf yn cael ei atgyfeirio i'r HES am ymchwiliad pellach |
| **GWENWYNDRA PENDANT** | Dau ganlyniad prawf sy'n nodi annormaleddau cyfatebol sy'n gyson â retinopathi hydrocsiclorocwin. Gellir bodloni'r diffiniad hwn yn y senarios canlynol:<br>i) SD-OCT <u>a</u> FAF sy'n nodweddiadol o retinopathi hydrocsiclorocwin<br>ii) Naill ai SD-OCT <u>neu</u> FAF sy'n nodweddiadol o retinopathi hydrocsiclorocwin, a gefnogir gan ganfyddiadau profion maes gweledol sy'n cyfateb i'r diffyg anatomegol.<br>Claf yn cael ei atgyfeirio i'r HES am ymchwiliad pellach |

Os nad yw sgrinio'n bosibl, yna dylid rhoi gwybod y rheswm yn glir i'r meddyg sy'n rhagnodi a dylid trafod unrhyw fesurau adferol posibl i wella'r farn gyda'r claf, a dylid rhoi gwybod i'r meddyg sy'n rhagnodi.

8.29. Os nodir patholeg retinol neu ocwlar arall yn rhan o'r gwasanaeth monitro HCQ/clorocwin, yna dylid atgyfeirio'r claf fel y bo'n briodol i'r llwybr clinigol perthnasol.

8.30. Dylid atgyfeirio cleifion ag annormaledd retinol sy'n arwydd o wenwyndra HCQ/clorocwin gyda nam VF neu hebddo, i'r HES am asesiad pellach.

8.31. Os bydd yr Optometrydd MR, yn dilyn asesiad, yn penderfynu atgyfeirio'r claf i'r HES yna fe sy'n gyfrifol am yr atgyfeiriad hwn, gan gynnwys hysbysu'r meddyg sy'n rhagnodi a'r meddyg teulu am yr atgyfeiriad hwn. Fodd bynnag, y meddyg sy'n rhagnodi sy'n gyfrifol am y claf yn gyffredinol.

8.32. Ni fydd cleifion yn cael eu galw'n ôl gan yr Optometrydd MR; cyfrifoldeb y meddyg sy'n rhagnodi yw gofyn am Fonitro HCQ/clorocwin WGOS 4 bob tro y mae ei angen ar glaf.

**NODER** na fydd y practis MR yn ceisio cadw claf y gofynnwyd am wasanaeth Monitro HCQ WGOS 4 ar ei gyfer ar gyfer gofal llygaid arall.

### *Adroddiadau*

8.33. Rhaid anfon adroddiad yn dilyn Monitro HCQ/clorocwin at;

- y meddyg sy'n rhagnodi sy'n gwneud cais
- meddyg teulu'r claf
- y claf
- darparwyr gofal perthnasol eraill i'r claf, e.e. ei Offthalmolegydd, lle bo'n briodol.

## CADW COFNODION

8.34. Bydd cofnodion yr Optometrydd MR yn cofnodi'n glir y rhesymeg a'r rheidrwydd clinigol (a gefnogir gan gais gan y meddyg sy'n rhagnodi) ar gyfer pob asesiad at ddibenion archwilio.

8.35. Bydd cofnodion yn destun archwiliadau arferol at ddibenion dilysu ar ôl talu ac archwiliad clinigol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r Bwrdd Iechyd perthnasol.

## CLEIFION NAD YDYNT YN MYNYCHU

8.36. Bydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn gyfrifol am reoli ceisiadau HCQ/clorocwin WGOS 4 gan gynnwys cysylltu â chleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiad(au) a hysbysu'r meddyg sy'n rhagnodi sy'n gwneud cais a'r meddyg teulu yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd.

8.37. Bydd yn ofynnol i gontractwyr WGOS 4 gyflwyno cyfanswm misol yr achosion lle methodd cleifion â mynychu eu hapwyntiad, er mwyn llywio gwerthusiad gwasanaeth.

## HAWLIO

8.38. Gellir hawlio ffi am bob cyfnod monitro HCQ/clorocwin WGOS 4 a gwblhawyd. Dim ond un ffi y gellir ei hawlio, ni waeth sawl ymweliad sydd ei angen i'w gwblhau.

8.39. Ni fydd yr Optometrydd MR WGOS 4 yn hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion nad ydynt wedi cael eu harchwilio.

8.40. Gall Optometrydd MR WGOS 4 hawlio ffi am y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu harchwilio, beth bynnag fo canlyniad yr asesiad.

8.41. Ni all Optometryddion nad ydynt yn arbenigo mewn retina meddygol gynnal asesiadau HCQ/clorocwin.

**NODER** bod yn rhaid i gyfnodau MRF WGOS 4 ac MRM WGOS 4 fod yn amlwg yng nghofnod y claf, fel arall bydd y ffi yn cael ei hadennill.

8.42. Bydd taliadau ar gyfer practisiau sy'n darparu gwasanaeth monitro HCQ/clorocwin WGOS 4 yn cael eu hawlio drwy gyflwyno manylion ar-lein i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

8.43. Gwneir hawliadau ar-lein ar ddiwedd yr ymgynghoriad neu o fewn 28 diwrnod gan yr Optometrydd MR WGOS 4, neu gan aelod o staff y Contractwr gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Optometrydd MR WGOS 4. Bydd gan bob practis system gyflwyno electronig, wedi'i hwyluso gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

8.44. Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gwneud taliadau monitro HCQ/clorocwin WGOS 4 ar ran Byrddau Iechyd.

8.45. Mae dyddiadau terfyn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer cyflwyno hawliadau yn berthnasol i'r gwasanaeth hwn. Bydd y Bwrdd Iechyd yn dewis p'un ai i dalu hawliadau hwyr ai peidio.

8.46. Bydd hawliadau a wneir gan Gontractwyr a restrir ar gyfer gweithgarwch Monitro HCQ/clorocwin WGOS 4 yn cael eu derbyn gyda'r set ddata genedlaethol. (Setiau Data WGOS 4 - GIG Cymru)

# 9. WGOS 4 – Glawcoma

*Mae Gwasanaeth Glawcoma WGOS 4 yn cynnwys hidlo atgyfeiriadau a monitro cyflyrau is-arbenigedd glawcoma.*

*Darperir y gwasanaeth yn gyfan gwbl mewn Gofal Sylfaenol. Mae'r Optometrydd sy'n cyflawni'r gweithgaredd WGOS 4 yn gyfrifol am y canlyniad.*

## DIFFINIADAU CYMHWYSEDD GLAWCOMA

9.1. Gall optometryddion sydd wedi cwblhau cwrs a gymeradwyir gan y GOC ac sydd wedi ennill cymhwyster Tystysgrif Broffesiynol mewn Glawcoma (Prof Cert Glauc) gyfrannu at wasanaethau monitro Gorbwysedd Ocwlar (OHT)/amheuaeth o glawcoma ongl agored cronig (COAG). (Optometryddion GC.)

9.2. Gall optometryddion sydd wedi cwblhau cwrs a gymeradwyir gan y GOC ac sydd wedi ennill cymhwyster Tystysgrif Uwch Broffesiynol mewn Glawcoma (Higher Cert Glauc) roi diagnosis o OHT a diagnosis rhagarweiniol o COAG a gwneud penderfyniadau rheoli ar gyfer cleifion ag OHT ac amheuaeth o glawcoma. (Optometryddion GH.)

9.3. Gall optometryddion sydd wedi cwblhau cwrs a gymeradwyir gan y GOC ac sydd wedi ennill cymhwyster Diploma Proffesiynol mewn Glawcoma (Dip Glauc) reoli neu gyd-reoli cleifion ag OHT a glawcoma. (Optometryddion GD.)

## ARCHWILIADAU GLAWCOMA GAN OPTOMETRYDDION WGOS 4

9.4. Bwriad y gwasanaeth hwn yw mireinio atgyfeiriadau glawcoma ymhellach a'u rheoli mewn gofal sylfaenol lle bo'n briodol. Bwriedir hefyd ddarparu monitro ar gyfer cleifion addas a nodir yn Hidlo Atgyfeiriadau Glawcoma WGOS 4 neu sydd wedi'u rhyddhau o HES gyda chynllun rheoli sy'n benodol i'r cyflwr/gwybodaeth rhyddhau a'u hatgyfeirio yn ôl i HES os/pan fo'n briodol.

9.5. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn disodli gwasanaethau glawcoma mewn gofal eilaidd ond ei fwriad yw darparu capasiti ychwanegol mewn gofal sylfaenol a lleihau'r galw am ofal eilaidd trwy hidlo allan cleifion y gellir eu rheoli gan Optometrydd Glawcoma.

9.6. Gellir rheoli cyflyrau fel a ganlyn:

- Gall Optometryddion Glawcoma (GC, GH a GD) fonitro cleifion sydd wedi cael diagnosis o OHT ac, os ydynt wedi ennill cymhwyster priodol, rheoli OHT ac amheuaeth o COAG gyda chynllun rheoli sefydledig sy'n benodol i'r cyflwr.
- Yn ogystal, gall Optometryddion Glawcoma sydd â'r Dystysgrif a'r Diploma Uwch (GH a GD) roi diagnosis o OHT a diagnosis rhagarweiniol COAG; monitro cleifion sydd wedi

cael diagnosis o OHT ar driniaeth neu yn absenoldeb cynllun rheoli sy'n benodol i'r cyflwr; a monitro achosion pellach a nodir gan Offthalmolegydd.

- Yn ogystal, gall Optometryddion Glawcoma sydd â'r Diploma (GD) reoli cleifion â COAG sefydledig ac achosion eraill o glawcoma a ystyrir yn addas i'w rheoli gan offthalmolegydd y claf, e.e. glawcoma ongl caeedig wedi'i drin, glawcoma digennol ffug, achosion pellach a nodir gan Offthalmolegydd y claf.

9.7. Bydd optometryddion glawcoma sydd â'r Dystysgrif a'r Diploma Uwch (GH a GD) yn cyflawni Asesiadau Hidlo Glawcoma WGOS 4 (GF) yn dilyn atgyfeiriad cymwys. Gellir hawlio ffi GF WGOS 4 yn annibynnol ar ganlyniad y cyfnod.

9.8. Bydd optometryddion glawcoma (yn unol â'u cymhwyster (GC, GH a GD) hefyd yn darparu Asesiadau Monitro Glawcoma WGOS 4 (GM WGOS 4) ar gyfer cleifion addas a atgyfeiriwyd o wasanaeth GF, ac/neu wasanaeth GM blaenorol, ac/neu sydd wedi'u rhyddhau o wasanaeth llygaid mewn ysbyty (HES), yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd. Gellir hawlio ffi GM WGOS 4 yn annibynnol ar ganlyniad y cyfnod.

## GLAWCOMA – CADW COFNODION

9.9. Dylid cadw cofnodion Glawcoma WGOS 4 yn unol â'r llawlyfr hwn a chanllawiau Coleg yr Optometryddion. Yn benodol:

- rhaid i gyfnodau GF a GM WGOS 4 fod yn amlwg yng nghofnod y claf, e.e. ar dudalen/sgrin ar wahân i gyfnodau gofal eraill a thrwy eu labelu'n "WGOS 4 GF" neu "WGOS 4 GM" fel y bo'n briodol;
- rhaid cofnodi manylion yr Optometrydd sy'n atgyfeirio neu'r atgyfeiriad atoch chi;
- rhaid cadw copïau o atgyfeiriadau i mewn i'r gwasanaeth ac allan ohono, gan gynnwys manylion cyfeirio ac atgyfeirio ar gyfer cymorth anghlinigol; a
- rhaid cadw copïau o adroddiadau.

**NODER** bod yn rhaid i gyfnodau GF WGOS 4 a GM WGOS 4 fod yn amlwg yng nghofnod y claf, fel arall bydd y ffi yn cael ei hadennill.

## GLAWCOMA – HAWLIADAU

9.10. Bydd taliadau ar gyfer practisiau sy'n darparu Asesiadau Glawcoma WGOS 4 yn cael eu hawlio drwy gyflwyno manylion ar-lein i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

9.11. Gwneir hawliadau ar-lein ar ddiwedd yr ymgynghoriad neu o fewn 28 diwrnod gan yr Optometrydd Glawcoma WGOS 4, neu gan aelod o staff y Contractwr gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Optometrydd Glawcoma WGOS 4. Bydd gan bob practis system gyflwyno electronig, wedi'i hwyluso gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

9.12. Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gwneud taliadau Glawcoma WGOS 4 ar ran Byrddau Iechyd.

9.13. Mae dyddiadau terfyn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer cyflwyno hawliadau yn berthnasol i'r gwasanaeth hwn.  Bydd y Bwrdd Iechyd yn dewis p'un ai i dalu hawliadau hwyr ai peidio.

9.14. Bydd hawliadau a wneir gan Gontractwyr a restrir ar gyfer gweithgarwch Glawcoma WGOS 4 yn cael eu derbyn gyda'r set ddata genedlaethol. (Setiau Data WGOS 4 - GIG Cymru)

# 10. Archwiliadau Hidlo Glawcoma (GF).

## ARCHWILIADAU GF – MEINI PRAWF CYMHWYSEDD CLAF

10.1. Bydd Optometryddion GH a GD WGOS 4 yn derbyn atgyfeiriadau lle bo'n briodol gan optometrydd sydd wedi cwblhau ymgynghoriad lle mae'n ymddangos bod yna OHT/glawcoma. Gall atgyfeiriadau o'r fath:

- Gael eu gwneud gan optometrydd, neu
- Gael eu hailgyfeirio yn dilyn brysbennu gan yr HES.

10.2. Ni fydd yr Optometrydd GH/GD yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer cleifion y maent yn penderfynu eu bod yn debygol o fod angen triniaeth frys mewn gofal eilaidd ar gyfer problem llygaid y mae'r Optometrydd GH/GD WGOS 4 yn annhebygol o allu ei rheoli, e.e. glawcoma ongl acíwt caeedig. Dylai'r Optometrydd nad yw'n arbenigo mewn GH/GD atgyfeirio'r claf at ofal eilaidd, yn unol â llwybrau lleol.

10.3. Gall yr Optometrydd GH/GD WGOS 4 ddarparu'r gwasanaeth hwn i unrhyw glaf sydd, yn ei farn glinigol, yn debygol o fod angen archwiliad na all Optometrydd nad yw'n arbenigo mewn GH/GD ei ddarparu.

## ARCHWILIADAU GF – CYMHWYSEDD OPTOMETRYDD GH/GD

10.4. Rhaid i'r Optometrydd Glawcoma WGOS 4 gydymffurfio â gofynion adran 3 "Cymhwysedd Optometrydd (cyflawnydd) WGOS 4" y llawlyfr clinigol hwn, ac:

- ennill cymhwyster Tystysgrif Broffesiynol mewn Glawcoma (Higher Cert Glauc) neu Ddiploma Proffesiynol (Dip Glauc), a
- chwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol gofynnol Glawcoma WGOS 4 (Y Tŷ Dysgu) yn llwyddiannus.

## LLWYBR GF

### *Atgyfeirio i'r llwybr*

10.5. Mae Optometrydd yn nodi cyflwr na all Optometrydd nad yw'n arbenigo mewn GH/GD ei reoli ac mae angen ei atgyfeirio ymlaen at Optometrydd GH/GD WGOS 4 i'w archwilio a'i reoli. Yn y lle cyntaf ac yn unol â rheoliadau a Gofal Iechyd Darbodus, dylid atgyfeirio'r claf at Optometrydd Gofal Sylfaenol sydd â chymwysterau sy'n briodol i anghenion y claf (yn yr achos hwn, Optometrydd GH/GD WGOS 4).

10.6. Gall yr atgyfeiriad ar gyfer Archwiliad Glawcoma fod naill ai o un practis i'r llall (atgyfeiriad rhwng practisiau) neu rhwng Optometryddion mewn practis (atgyfeiriad o fewn practis). Dylid gwneud atgyfeiriadau gan ddefnyddio set ddata genedlaethol a thempled yn unol â chanllawiau gweithredol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd.

10.7. Rhaid i'r optometrydd atgyfeirio o fewn amserlen glinigol briodol yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd, a hynny gan ddefnyddio'r dull penodedig, e.e. dros y ffôn, mewn e-bost, trwy'r post.

10.8. Pan wneir atgyfeiriad mewn e-bost, trwy'r post, neu'n bersonol fel y bo'n briodol ar gyfer GF, dylid defnyddio'r templed 'atgyfeirio i HES', neu system arall y cytunwyd arni rhwng y Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol a'r Bwrdd Iechyd, e.e. atgyfeiriad electronig. Dylid darparu copi o hwn i feddyg teulu'r claf neu hysbysu'r meddyg teulu fel arall am y camau a gymerwyd.

10.9. Mae gofal y claf yn cael ei drosglwyddo i'r Optometrydd GH/GD WGOS 4 pan dderbynnir yr atgyfeiriad. Ar ôl cynnal archwiliad, os bydd yr Optometrydd GH/GD WGOS 4 yn gwneud penderfyniad clinigol i atgyfeirio'r claf i'r HES, fe fydd yn gyfrifol am yr atgyfeiriad hwn.

10.10. Bydd canllawiau gweithredol lleol, gan gynnwys manylion Optometryddion GH/GD WGOS 4, yn cael eu cyhoeddi gan Fyrddau Iechyd.

10.11. Gellir cyflawni agweddau o GF WGOS 4, ond nid cyfnodau cyfan, o bell ac/neu yn rhithiol. Yr Optometrydd GH/GD WGOS 4 sy'n cynnal yr archwiliad fydd yn penderfynu hyn. Mewn achosion o'r fath, nid oes ffi symudol oherwydd ni fyddai'r Optometrydd GH/GD WGOS 4 wedi gadael y practis.

### *Archwiliad*

10.12. Bydd yr Optometrydd GH/GD WGOS 4 yn derbyn neu'n gwrthod atgyfeiriadau yn unol â'r meini prawf cymhwysedd (10.1-10.3 uchod) ac yn cynnig apwyntiad o fewn amserlen briodol gan ddefnyddio ei farn glinigol. Rhaid i hyn gynnwys atgyfeiriadau rhwng practisiau ac o fewn practis. Gellir ailgyfeirio achosion addas hefyd yn dilyn brysbennu gan y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd.

10.13. Bydd yr Optometrydd GH/GD WGOS 4 yn cynnal archwiliad GF WGOS 4 sy'n briodol i unrhyw symptomau sy'n ymgyflwyno ac atgyfeiriad; yn rheoli a chynghori'r claf yn briodol; ac yn trefnu gwasanaeth dilynol ac/neu'n atgyfeirio neu'n rhyddhau'r claf. Mae hwn yn archwiliad a arweinir gan anghenion; felly dylai'r Optometrydd GH/GD WGOS 4 gynnal profion sy'n berthnasol i anghenion y claf a Set Ddata Genedlaethol WGOS (Setiau Data WGOS 4 - GIG Cymru ).

10.14. Bydd yr Optometrydd GH/GD WGOS 4 yn mynd ati i geisio cefnogi claf trwy ddarparu, cyfeirio ac/neu atgyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chymorth dibynadwy, yn rhan o archwiliad. Bydd Cyngor y Deillion Cymru yn cyhoeddi canllawiau lleol. Dylid darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn y fformat hygyrch sydd orau gan y claf.

10.15. Rhaid anfon adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol ac ar ddiwedd y gofal at:

- yr Optometrydd sy'n atgyfeirio
- meddyg teulu'r claf
- y claf
- darparwyr gofal perthnasol eraill i'r claf, e.e. ei Offthalmolegydd, lle bo'n briodol.

10.16. Bydd yr Optometrydd GH/GD WGOS 4 (neu Optometrydd GH/GD WGOS 4 arall) yn cynnal asesiadau GF WGOS 4 pan fo angen clinigol i atal/lleihau nifer yr atgyfeiriadau i rannau eraill

o’r GIG, gan gynnwys Offthalmoleg. Gellir hawlio ffi am bob asesiad a wnaed gan yr Optometrydd GH/GD WGOS 4. Ni all Optometryddion nad ydynt yn arbenigo mewn GH/GD gynnal asesiadau Hidlo Glawcoma. Bydd cofnodion yr Optometrydd GH/GD yn cofnodi'n glir y rhesymeg a'r rheidrwydd clinigol ar gyfer pob asesiad at ddibenion archwilio.

10.17. Bydd yr Optometrydd WGOS 4 GH/GD yn defnyddio barn glinigol i benderfynu pryd bydd y gofal wedi'i gwblhau.

10.18. Ni fydd y practis glawcoma yn ceisio cadw claf a atgyfeiriwyd at GF WGOS 4 ar gyfer gofal llygaid arall.

## CADW COFNODION

10.19. Bydd yr Optometrydd GH/GD WGOS 4 yn cadw cofnod o’r broses brysbennu, ynghyd â’r dyddiad brysbennu ynghyd â’r dyddiad a argymhellir ar gyfer Archwiliad GF a’r dyddiad y bu’r claf yn bresennol. Rhaid i gofnodion brysbennu fod ar gael i'r bwrdd iechyd ar gais.

10.20. Rhaid i’r Optometrydd GH/GD WGOS 4 gadw cofnodion digonol o'r ymgynghoriad gan gynnwys y trefnau rheoli, e.e. cynllun dilynol/atgyfeiriad, a chyngor a roddir i'r claf.

10.21. Bydd cofnodion yr Optometrydd GH/GD yn cofnodi'n glir y rhesymeg a'r rheidrwydd clinigol ar gyfer pob asesiad at ddibenion archwilio.

10.22. Bydd cofnodion yn destun archwiliadau arferol at ddibenion dilysu ar ôl talu ac archwiliad clinigol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a’r Bwrdd Iechyd perthnasol.

## CLEIFION NAD YDYNT YN MYNYCHU

10.23. Bydd yr Optometrydd GH/GD WGOS 4 yn gyfrifol am reoli atgyfeiriadau a dderbynnir gan gynnwys cysylltu â chleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiad(au) a hysbysu meddyg teulu’r claf ac/neu’r atgyfeiriwr.

10.24. Bydd yn ofynnol i gontractwyr WGOS 4 gyflwyno cyfanswm misol yr achosion lle methodd cleifion â mynychu eu hapwyntiad, er mwyn llywio gwerthusiad gwasanaeth.

## HAWLIO

10.25. Gellir hawlio ffi am bob asesiad GF a wnaed gan yr Optometrydd GH/GD WGOS 4. Dim ond un ffi y gellir ei hawlio, ni waeth sawl ymweliad sydd ei angen i'w gwblhau.

10.26. Gall yr Optometrydd GH/GD hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu harchwilio, ni waeth a yw'r claf yn cael ei ryddhau wedi hynny, yn cael ei atgyfeirio i GM, neu'n cael ei atgyfeirio i'r HES.

10.27. Ni all Optometryddion nad ydynt yn arbenigo mewn GH/GD gynnal apwyntiadau GF.

10.28. Ni fydd yr Optometrydd GH/GD WGOS 4 yn hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion nad ydynt wedi cael eu harchwilio.

# 11. Archwiliadau Monitro Glawcoma (GM)

## ARCHWILIADAU GM – MEINI PRAWF CYMHWYSEDD CLAF

11.1. Bydd Optometryddion Glawcoma WGOS 4 (GC, GH, a GD) yn derbyn:

- atgyfeiriadau, lle bo'n briodol:
  - gan Optometryddion GH/GD sydd wedi cwblhau ymgynghoriad GF WGOS 4 lle mae'r trefnau rheoli gofynnol yn bodloni'r cwmpas ymarfer ar gyfer lefel eu cymhwyster, ac;
  - o achosion addas a ailgyfeiriwyd yn dilyn brysbennu gan yr HES yn unol â chanllawiau gweithredol y Bwrdd Iechyd.
- Achosion o ryddhau, lle bo'n briodol:
  - cleifion addas, na ellir eu rheoli gan optometrydd nad yw'n arbenigo mewn glawcoma, o ofal eilaidd, yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd.

## ARCHWILIADAU GM – CYMHWYSEDD OPTOMETRYDD GC/GH/GD

11.2. Rhaid i'r Optometrydd Glawcoma WGOS 4 gydymffurfio â gofynion adran 3 "Cymhwysedd Optometrydd (cyflawnydd) WGOS 4" y llawlyfr clinigol hwn, ac:

- ennill cymhwyster Tystysgrif Broffesiynol mewn Glawcoma (Higher Cert Glauc) neu Ddiploma Proffesiynol (Dip Glauc), a
- chwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol gofynnol Glawcoma WGOS 4 (Y Tŷ Dysgu) yn llwyddiannus.

## LLWYBR GM

### *Atgyfeirio i'r llwybr*

11.3. Mae Optometrydd GH/GD WGOS yn nodi y gellir rheoli cyflwr yn WGOS 4 ac mae angen ei atgyfeirio ymlaen at Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 i'w archwilio a'i reoli. Fel arall, mae Optometrydd GH/GD WGOS yn gorffen cyfnod Hidlo Glawcoma drwy benderfynu parhau i reoli'r claf ag archwiliad(au) Monitro Glawcoma.

11.4. Gall yr atgyfeiriad ar gyfer Archwiliad Monitro Glawcoma fod naill ai o un practis i'r llall (atgyfeiriad rhwng practisiau) neu rhwng Optometryddion mewn practis (atgyfeiriad o fewn practis). Dylid gwneud atgyfeiriadau gan ddefnyddio set ddata genedlaethol a thempled yn unol â chanllawiau gweithredol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd.

11.5. Rhaid i'r Optometrydd GH/GD atgyfeirio o fewn amserlen glinigol briodol yn unol â'r canllawiau gweithredol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd, a hynny gan ddefnyddio'r dull penodedig, e.e. dros y ffôn, mewn e-bost, trwy'r post.

11.6. Pan wneir atgyfeiriad mewn e-bost neu trwy'r post, fel y bo'n briodol, at yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 gan ddefnyddio'r templed cenedlaethol, neu system arall y cytunwyd arni

rhwng y Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol a'r Bwrdd Iechyd, e.e. atgyfeiriad electronig, rhaid anfon copi at feddyg teulu'r claf neu hysbysu'r meddyg teulu fel arall am y camau a gymerwyd.

11.7. Mae gofal y claf yn cael ei drosglwyddo i'r Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 pan dderbynnir yr atgyfeiriad. Ar ôl cynnal archwiliad, os bydd yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 yn gwneud penderfyniad clinigol i atgyfeirio'r claf i'r HES, fe fydd yn gyfrifol am yr atgyfeiriad hwn.

11.8. Bydd canllawiau gweithredu lleol, gan gynnwys manylion Optometryddion Glawcoma WGOS 4 a'u cwmpas ymarfer, yn cael eu cyhoeddi gan Fyrddau Iechyd.

11.9. Gall Optometrydd GC/GH/GD ddychwelyd atgyfeiriadau a wneir y tu allan i'w gwmpas ymarfer. Trosglwyddir gofal y claf yn ôl i'r atgyfeiriwr pan dderbynnir ymateb.

11.10. Gall Optometryddion GC/GH/GD gynnal Asesiadau Monitro Glawcoma o achosion o fewn eu cwmpas ymarfer yn unig.

11.11. Ni chaiff Optometryddion nad ydynt yn arbenigo mewn GC/GH/GD gynnal Asesiadau GM.

## *Archwiliad*

11.12. Bydd yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 yn derbyn neu'n gwrthod atgyfeiriadau yn unol â'u cwmpas ymarfer, y meini prawf cymhwysedd (11.1 uchod), ac atgyfeiriadau ac achosion o ryddhau a ailgyfeiriwyd gan HES yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd. Rhaid i hyn gynnwys atgyfeiriadau rhwng practisiau ac o fewn practis. Bydd yr Optometrydd Glawcoma yn cynnig apwyntiad o fewn amserlen briodol gan ddefnyddio ei farn glinigol.

11.13. Bydd yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 yn cynnal archwiliad GM WGOS 4 sy'n briodol i unrhyw symptomau sy'n ymgyflwyno ac atgyfeiriad; yn rheoli a chynghori'r claf yn briodol; ac yn trefnu gwasanaeth dilynol ac/neu'n atgyfeirio neu'n rhyddhau'r claf. Mae hwn yn archwiliad a arweinir gan anghenion; felly dylai'r Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 gynnal profion sy'n berthnasol i anghenion y claf a'r set ddata genedlaethol.

11.14. Bydd yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 yn mynd ati i geisio cefnogi claf trwy ddarparu, cyfeirio ac/neu atgyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chymorth dibynadwy, yn rhan o archwiliad. Bydd Cyngor y Deillion Cymru yn cyhoeddi canllawiau lleol. Dylid darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn y fformat hygyrch sydd orau gan y claf.

11.15. Rhaid anfon adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol ac ar ddiwedd y gofal at:

- yr Optometrydd sy'n atgyfeirio (naill ai gan yr atgyfeiriwr GF neu at yr optometrydd gwreiddiol os yw'n atgyfeiriad wedi'i ailgyfeirio gan HES)
- meddyg teulu'r claf
- y claf
- darparwyr gofal perthnasol eraill i'r claf, e.e. ei ddiabetolegydd

11.16. Bydd yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 (neu Optometrydd Glawcoma WGOS 4 arall) yn cynnal asesiadau GM WGOS 4, yn unol â'u cwmpas ymarfer, pan fo angen clinigol i atal/lleihau nifer yr atgyfeiriadau i rannau eraill o'r GIG, gan gynnwys Offthalmoleg. Gellir hawlio ffi am bob asesiad a wnaed gan yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4. Ni all

Optometryddion nad ydynt yn arbenigo mewn glawcoma gynnal asesiadau GM. Bydd cofnodion yr Optometrydd Glawcoma yn cofnodi'n glir y rhesymeg a'r rheidrwydd clinigol ar gyfer pob asesiad at ddibenion archwilio.

11.17. Bydd yr Optometrydd WGOS 4 GC/GH/GD yn defnyddio barn glinigol i;

- Bennu'r amserlen ar gyfer yr apwyntiad monitro nesaf a chynghori'r claf yn unol â hynny; neu
- Benderfynu a yw/pan mae'r gofal GM wedi'i gwblhau a chynghori'r claf yn unol â hynny.

11.18. Ni fydd y practis glawcoma yn ceisio cadw claf a atgyfeiriwyd at Fonitro Glawcoma WGOS 4 ar gyfer gofal llygaid arall.

## CADW COFNODION

11.19. Bydd yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 yn cadw cofnod o'r dyddiad a argymhellir ar gyfer Archwiliad GM a'r dyddiad y bu'r claf yn bresennol.

11.20. Rhaid i'r Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 gadw cofnodion digonol o'r ymgynghoriad gan gynnwys y trefnau rheoli, e.e. cynllun dilynol/atgyfeiriad, a chyngor a roddir i'r claf.

11.21. Bydd cofnodion yr Optometrydd GC/GH/GD yn cofnodi'n glir y rhesymeg a'r rheidrwydd clinigol ar gyfer pob asesiad at ddibenion archwilio.

11.22. Bydd cofnodion yn destun archwiliadau arferol at ddibenion dilysu ar ôl talu ac archwiliad clinigol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r Bwrdd Iechyd perthnasol.

## CLEIFION NAD YDYNT YN MYNYCHU

11.23. Bydd yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 yn gyfrifol am reoli atgyfeiriadau a dderbynnir gan gynnwys cysylltu â chleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiad(au) a hysbysu meddyg teulu'r claf ac/neu'r atgyfeiriwr.

11.24. Bydd yn ofynnol i gontractwyr WGOS 4 gyflwyno cyfanswm misol yr achosion lle methodd cleifion â mynychu eu hapwyntiad, er mwyn llywio gwerthusiad gwasanaeth.

## HAWLIO

11.25. Gellir hawlio ffi am bob asesiad GM a wnaed gan yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4, ac eithrio asesiadau GM a wnaed gan Optometrydd GD y mae'r canlynol (11.26 isod) yn berthnasol iddo. Dim ond un ffi y gellir ei hawlio, ni waeth sawl ymweliad sydd ei angen i'w gwblhau.

11.26. Gall Optometrydd GD WGOS 4:

- Sydd wedi'i gofrestru gan y Cyngor Optegol Cyffredinol gyda'r arbenigedd presgripsiynu annibynnol, ac

- Sydd â phad rhagnodi WP10 yn y practis lle mae'r Contractwr yn gweithio

hawlio am bob asesiad GM ar gyfradd fonitro WGOS 5, ni waeth a ragnodir meddyginiaeth ai peidio.  Dim ond un ffi y gellir ei hawlio, ni waeth sawl ymweliad sydd ei angen i'w gwblhau.

11.27. Gall yr Optometrydd GC/GH/GD hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu harchwilio, ni waeth a yw'r claf yn cael ei ryddhau wedi hynny, yn cael ei atgyfeirio i GM, neu'n cael ei atgyfeirio i'r HES.

11.28. Ni all Optometryddion nad ydynt yn arbenigo mewn GH/GD gynnal apwyntiadau GM.

11.29. Ni fydd yr Optometrydd GC/GH/GD WGOS 4 yn hawlio ffi o dan y gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion nad ydynt wedi cael eu harchwilio.